

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Gwent

Ward/Adran: D3 Gorllewin

Dyddiad yr Arolygiad: 21 a 22 Ionawr 2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Dim – argymhelliad ynglŷn â chyfleusterau isod.			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
Tudalen 8	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff yr offer priodol er mwyn eu galluogi i gyfathrebu â chleifion sydd â nam ar y clyw mewn ffordd ddiffwdan.	Bydd y ward yn prynu dolen sain gludadwy. Wedi casglu gwybodaeth am gostau, ac yn aros am fanylion caffael gan y gweithiwr cymorth nam ar y synhwyrâu a ariennir gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrw m eu Clyw (RNID) a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB).	Uwch Nyrs/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	31.03.2015

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gallai staff ddiogelu urddas cleifion wrth iddynt ddefnyddio'r tai bach, e.e. trwy ddefnyddio arwyddion 'yn brysur'.	<p>Gwnaed cais am fân waith i wella arwyddion ar 28/01/2015.</p> <p>Wedi'i uwchgyfeirio i bennaeth Mân Waith 04/02/2015.</p> <p>Arwyddion 'yn brysur/ddim ar gael' dros dro wedi eu lamineiddio yn eu lle.</p>	<p>Uwch Nyrs/Mân Waith</p> <p>Uwch Nyrs</p>	Cwblhawyd
Tudalen 10	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wneud amgylchedd y ward mor hygyrch ag y bo modd ar gyfer cleifion sydd wedi drysu, sydd â dementia, ac sydd ag anghenion cymhleth neu synhwyraidd.	<p>Mae Grŵp Llywio Safonau Hygyrchedd sy'n gweithio i gydymffurfio â Safonau Llywodraeth Cymru, ac mae cynllun arfaethedig i weithredu ledled y Bwrdd Iechyd yn cael ei ystyried.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cofrestru gydag Amgylcheddau Cyfeillgar i Dementia a Henaint, sy'n cael eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Amgylchedd. Wrth i Wardiau/Adrannau gael eu huwchraddio, mae'r egwyddorion dylunio'n cael eu hymgorffori.</p>	Grŵp Safonau Hygyrchedd	
Tudalen 11	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r effaith mae diffyg cyfleusterau ymolchi a thai bach yn ei chael ar ofal cleifion, o ran trefn y ward a tharfu ar gwsg.	<p>Nid yw D3W yn gallu adeiladu/creu mwy o gyfleusterau toiled a chawod oherwydd cyfyngiadau ffisegol yr adeilad presennol.</p> <p>Paratowyd papur gynt a oedd yn amlinellu cynlluniau i gynyddu cyfleusterau toiled a chawod ar draws yr uned gardioleg drwy drawsnewid</p>	Tîm Rheoli Is-adrannol	

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>ystafell ymolchi nad yw'n cael ei defnyddio digon sy'n cefnu ar D3W o ward gyfagos.</p> <p>Costau dynodol ar gyfer y prosiect = £79,000. Ni nodwyd ffynhonnell o gyllid ar gyfer y gwaith hwn hyd yn hyn.</p> <p>Hefyd mae cynlluniau ar y gweill i ail-ddylunio'r uned gardioleg gyfan fel rhan o waith ehangach i ddatblygu gwasanaethau cardioleg.</p> <p>Mae cyfleusterau toiled a chawod eisoes wedi cael eu hailwampio gan fod galw mawr am y cyfleusterau hyn.</p>	Mân waith	Cwblhawyd
Tudalen 12	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr effaith mae diffyg cyfleusterau ymolchi'n ei chael ar ofal cleifion o ran eu mynediad at ofal personol amserol.	Gweler yr ymateb i dudalen 11		
Tudalen 12	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ward yn derbyn digon o ynau er mwyn hyrwyddo cyfforddusrwydd cleifion ac i sicrhau bod eu hurddas yn cael ei gynnal.	Ni ystyrir gynau'n rhywbeth y gellir eu defnyddio yn lle dillad nos i'r cleifion. Felly mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n prynu rhagor o ddillad nos.	Cyfarwyddwr Adrannol - Cyfleusterau	Cyflawn gydag adolygiad parhaus
Tudalen 13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o brydau bwyd yn cael eu paratoi yn y gegin ar gyfer cleifion, yn unol â'u dewisiadau o'r fwydlen. Dylid gweini prydau bwyd cleifion	Mae prydau bwyd ar gyfer D3W a CCU bellach yn cael eu darparu gan y ceginau yn annibynnol ar ei gilydd er mwyn datrys problemau yn ymwneud â dewisiadau ar y fwydlen a	Rheolwr y Gwasanaethau Gweithredol	Wedi'i gwblhau ac yn cael ei fonitro'n

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	tra eu bod yn boeth.	thymheredd y bwyd.		barhaus
Tudalen 14	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff ddod o hyd i brydau bwyd a byrbrydau yn hawdd y tu allan i amseroedd prydau bwyd.	Darperir byrbrydau yng nghegin D3W, a hefyd mae gan D3W ffurflenni cais ar gyfer byrbrydau ychwanegol yn ôl yr angen	Rheolwr y Gwasanaethau Gweithredol	Wedi'i gwblhau ac yn cael ei fonitro'n barhaus
Tudalen 15	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr effaith mae diffyg tai bach yn ei chael ar ofal cleifion o ran anghenion toiled cleifion, urddas a dewis.	Gweler yr ymateb i dudalen 11		
Tudalen 15	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y tai bach gael eu glanhau a'u cynnal i'r safon briodol.	Caiff y toiledau eu glanhau o leiaf dair gwaith y dydd, yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd. Staff i uwchgyfeirio i weithiwr cadw tŷ neu oruchwyliwr y ward os oes angen i'r toiledau gael eu glanhau eto.	Prif Nyrs y Ward / Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol	
Tudalen 17	Dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rheswm/rhesymau pam mae staff yn cael trafferth wrth gael gafael ar fatresi lleddfu pwysedd, a chymryd y camau priodol i atal oediadau.	Mae'r broses bresennol wedi cael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Nyrsys Cynorthwyol a'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau, a pheiriannydd gwasanaethau Huntleigh ar y safle. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei stôr o fatresi lleddfu pwysau yn sylweddol, a golyga hyn nad yw'n dibynnu gymaint ar gynhyrchion sydd wedi eu rhentu, ac mae'r amser aros ar gyfer wardiau sy'n gofyn am gynnyrch lleddfu pwysau wedi gwella.	Nyrs Adrannol/Uwch Nyrs/Prif Nyrs y Ward	28/01/2015 Monitro parhaus.

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae wardiau'n gofyn am fatresi bob dydd, felly golyga hyn fod y rhestr ceisiadau mor 'fyw' a manwl gywir â phosibl. Yn sgil hynny, mae'r wardiau'n adolygu eu hasesiadau risg cleifion.</p> <p>Mae proses ar waith ar gyfer rhentu matresi ychwanegol yn seiliedig ar anghenion y cleifion.</p>		
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 18	Argymhellir y dylai'r bwrdd iechyd ddefnyddio canlyniadau'r ymarfer dull aciwtedd i asesu ac i lywio'r lefelau staffio parhaus, ac i sicrhau bod digon o staff er mwyn i brif nyrs y ward gael amser ychwanegol.	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull aciwtedd i lywio lefelau staffio o hyn allan.</p> <p>Mae Bwrdd Rhaglenni ar gyfer gweithredu lefelau staffio yn seiliedig ar Egwyddorion Nyrsio Cymru Gyfan</p>	Cyfarwyddwr Nyrsys Cynorthwyol	Adolygiad o'r wybodaeth bresennol mis Mawrth 2015
Tudalen 20	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y cynorthwyr staff i gadw'n gyfredol gyda hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau ac y gallant weithio'n ddiogel ac yn effeithiol gyda chleifion. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt roi cymorth i gleifion sy'n agored i niwed. (e.e. Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a	<p>Mae diwrnodau cwrdd i ffwrdd blynyddol wedi eu cynllunio ar gyfer y ward.</p> <p>Dirprwy Brif Nyrs i gynnal y gronfa ddata hyfforddiant a rhoi gwybod i'r aelodau staff sydd angen diweddarau eu hyfforddiant.</p>	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Parhaus drwy gydol y flwyddyn, oherwydd mae angen diweddariadau ar y staff ar wahanol adegau yn ystod y

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	dementia/dryswch).			flwyddyn
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
Tudalen 21	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan staff fynediad at bolisiâu rhyddhau cyfredol er mwyn llywio arfer.	<p>Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n diweddarau'r polisi rhyddhau.</p> <p>Mae'r prosesau rhyddhau bellach yn cael eu hadolygu gan y tîm archwilio mewnol.</p> <p>Adolygwyd y rhestr wirio rhyddhau yn ddiweddar, ac mae'n cael ei defnyddio i gleifion preswyl i sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau'n ddiogel</p>	Grŵp Polisiâu Clinigol	Mai 2015
Tudalen 23	Dylai staff sicrhau bod y troli meddyginiaethau o dan glo ar bob adeg, er mwyn atal mynediad gan gleifion heb awdurdod.	Mae'r troli meddyginiaeth dan glo ac wedi'i ddiogelu i wal. Cyflwynir hapwiriadau parhaus i wirio cydymffurfiaeth.	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Tudalen 23	Dylai'r clo newydd ar ddrws yr ystafell driniaeth gael ei ddefnyddio gan bob aelod o staff, er mwyn sicrhau bod y man yn ddiogel ar bob adeg.	Mae'r drws wedi'i ddiogelu bob amser. Cyflwynir hapwiriadau parhaus i wirio cydymffurfiaeth.	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Tudalen 24	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyffuriau mewnwythiennol yn cael eu cadw mewn lle addas ar bob adeg.	Mae'r holl gyffuriau IV wedi eu storio mewn ffordd addas	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 24	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wneud y ddogfennaeth yn haws ei dilyn o ran deall rheoli gofal a llwybr gofal y claf.	<p>Cedwir yr holl asesiadau risg nyrsio mewn ffolder gyda Kardex y claf perthnasol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r bwrdd iechyd yn ystyried dechrau defnyddio cofnodion cleifion electronig.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth TG</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p>
Tudalen 25	Dylai cynlluniau gofal cleifion fod yn gyflawn ac â'r lefel ofynnol o fanylder i sicrhau bod gan staff ganllawiau i'w dilyn wrth iddynt drin y claf.	<p>Mae'r holl gynlluniau gofal wedi cael eu harchwilio a chanfuwyd eu bod yn ddigon eglur a manwl.</p> <p>Archwiliad DECI arall i'w wneud gyda'r Prif Nyrs ar gyfer Ansawdd a Diogelwch Cleifion.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs</p> <p>Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs</p>	<p>29/01/2015</p> <p>03/03/2015</p>
Tudalen 25	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses MUST yn cael ei chwblhau'n gywir, a bod pob cam gweithredu sy'n deillio ohoni yn cael ei wneud, gan sicrhau rheoli risg priodol ar gyfer cleifion.	<p>Cynhaliwyd adolygiad o sgoriau MUST.</p> <p>Canfuwyd bod yr asesiadau wedi cael eu sgorio'n gywir, a bod camau gweithredu a gwaith cynllunio gofal priodol yn eu cylch. Bydd y canfyddiadau hyn a chanfyddiadau'r archwiliadau DECI a gynlluniwyd yn cael eu hanfon at y Nyrs Ranbarthol er mwyn iddi roi sicrwydd.</p>	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Tudalen 26	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan bob claf diabetig gynlluniau gofal ac asesiadau risg clir ar waith er mwyn i staff eu dilyn ac i sicrhau y gall gofal gael ei werthuso a'i fod yn briodol.	Yn ddiweddar gwnaeth y bwrdd iechyd benodi Uwch Nyrs integredig 8a ar gyfer diabetes a wahoddir i asesu safon asesiadau/cynlluniau gofal/gwerthusiadau diabetig.	Prif Nyrs y Ward/Uwch Nyrs	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus Trefnwyd

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Cynhaliwyd adolygiad a chanfuwyd bod yr asesiadau'n gyfredol ac yn gywir ar adeg yr adolygiad.		arolygiad DECI mewnol 03/03/2015.

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch): Rhiannon Jones

Teitl: Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol

Llofnod:

Dyddiad: 23 Chwefror 2015